

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher*: Mr Gareth L James

Ymarfer Côr a Cherddorfa Proms Ceredigion – Bl.6

Mae nifer o ddisgyblion Blwyddyn 6 eisoes wedi dangos diddordeb mewn ymuno yng Nghôr Ceredigion ac yn awyddus i berfformio yn y Proms eleni. Rydym wedi rhoi'r geiriau a'r gerddoriaeth ar Teams Blwyddyn 6 er mwyn i'r plant gyfarwyddo â nhw cyn mynychu. Ar gyfer y gerddorfa, mae disgyblion eisoes wedi cael eu hadnabod gan eu hathrawon offerynnol.

Bydd yr ymarferion ar gyfer y Proms wythnos nesaf. [Ymarfer Côr – dydd Llun 19eg o Fehefin; Ymarfer Cerddorfa 23ain o Fehefin.](#) Bydd bws yn mynd o'r ysgol yn y bore a dychwelyd yn y prynhawn. Bydd angen pecyn bwyd arnynt.

(Er gwybodaeth, dyddiad y PROMS yw 6ed o Orffennaf 2023. [Mae'r Gân Actol a'r Grŵp Dawnsio Aml-gyfrwng yn perfformio hefyd.](#))

Mabolgampau Ysgol

Bwriedir cynnal y Mabolgampau Ysgol ar ddydd Iau yr 22ain o Fehefin, gan gychwyn am 12:45yp os fydd y tywydd yn ffafriol. Os fydd hi'n wlyb, yr ail ddyddiad yw'r diwrnod canlynol sef y 23ain o Fehefin. Bydd y Mabolgampau yn cael eu cynnal ar gaeau'r ysgol, caeau'r Clwb Rygbi a Chaeau Penweddig. Dewch i brif fynedfa'r ysgol os ydych yn dymuno dod i gefnogi'ch plentyn. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn gofyn am gyfraniadau os gwelwch yn dda – gweld [poster](#). Gweler y [rhaglen](#) wedi'i hatodi.

Sioe Aberystwyth

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion yr ysgol a gystadlodd yn Sioe Aberystwyth benwythnos diwethaf. Cafodd nifer helaeth o blant eu canmol, gan ennill gwobrau mewn nifer o gategoriâu. Llwyddodd yr ysgol i ennill y categori 'Ysgol Gynradd gyda'r mwyaf o bwytiau' – da iawn chi blant!

Calendr Hanner Tymor

Mae'r [Calendr Hanner Tymor](#) yn parhau i gael ei addasu fel mae digwyddiadau yn cael eu hychwanegu neu eu hepgor.

Casglu adnoddau ar gyfer Wcraïn

Mae Jenny sy'n gweithio yn yr ysgol yn ystod amser cinio yn gwirfoddoli yn gyson gyda chefnogi trigolion yr Wcraïn. Ar y cyd gyda Pwyllgor Dyngarol yr ysgol, rydym yn gofyn am gyfraniadau o offer papurach (stationery) ar gyfer eu cyfrannu. Offer megis pensiliau, pensiliau lliw, rwberi, naddwyr, prennau mesur, papur lliw, paent ayyb Mi fyddwn yn gosod troli yn yr ysgol ar gyfer casglu'r holl offer dros y dair wythnos nesaf. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn adnoddau felly fydd dydd Gwener 7fed o Orffennaf 2023.

Ras yr Iaith – Bl.5 a 6

Bydd disgyblion bl.5a6 yn cymryd rhan yn y ras ar hyd y Prom ar fore dydd Iau, 22ain o Fehefin. Byddwn yn dychwelyd mewn da bryd ar gyfer cinio a'r Mabolgampau.

Nodyn atgoffa:

Hoffwn eich hatgoffa o ddyddiad yr Ŵyl Haf eleni, sef 6yh nos Fawrth 27ain o Fehefin 2023.

Hoffwn eich hatgoffa bydd yr ysgol ar gau ar gyfer hyfforddiant staff ar ddydd Gwener, Mehefin 30ain.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,
Gareth L James
Pennaeth Dros Dro
15/06/2023

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher*: Mr Gareth L James

Ceredigion Proms Choir and Orchestra rehearsals – Year 6

Several Year 6 pupils have already shown an interest in joining Côr Ceredigion and are keen to perform at the Proms this year. We have put the words and music on Year 6 Teams for the children to familiarise themselves with before attending. For the orchestra, pupils have already been identified by their instrumental teachers.

The rehearsals for the Proms will be next week. Choir Practice – Monday 19th June; Orchestra Rehearsal Friday 23rd of June.

A bus will transport the children from the school in the morning and return in the afternoon. They will need a packed lunch.

(For your information, the PROMS date is 6th July 2023. The Action Song and the Multi-Media Dance Group are also performing.)

School Sports Day

We hope to hold the School Sports on Thursday the 22nd of June, starting at 12:45pm, weather permitting.

If it is wet, the second date is the following day which is the 23rd of June. The School Sports will be held on the school fields, the Rugby Club fields and Penweddig Fields. Come to the school's main entrance if you wish to come and support your child. The PTA is asking for donations please - see [poster](#). See the attached [programme](#).

Aberystwyth Show

Congratulations to the pupils who competed in the Aberystwyth Show last weekend. Many children were praised, winning prizes in several categories. The school managed to win the 'Primary School with the most points' category - well done children!

Half Term Calendar

The [Half Term Calendar](#) continues to be updated as events are added or omitted.

Collecting resources for Ukraine

Jenny who works at the school during lunch time regularly volunteers with supporting the residents of Ukraine. Together with the school's Humanitarian Committee, we are asking for donations of stationery. Items such as pencils, coloured pencils, erasers, sharpeners, rulers, coloured paper, paint etc are welcomed. We will place a trolley in the school to collect all the items over the next three weeks. The last date for receiving resources will be Friday 7th July 2023.

Ras yr Iaith – Year 5 and 6

Year 5 and 6 pupils will take part in the race along the Prom on Thursday morning, 22nd June. We will return in good time for lunch and School Sports Day.

Date Reminders:

I would like to remind you of the date of this year's Summer Festival, (Yr Wyl Haf) which is 6pm Tuesday 27th June 2023

I would like to remind you that the school will be closed for staff training on Friday, June 30th.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yours,
Gareth L James
Acting Headteacher
15/06/2023